# Adroddiad Rhwydwaith Cenedlaethol: Sgwrs wyneb yn wyneb am y Cwricwlwm ac Addysgeg

## Trosolwg:

Ym mis Ionawr/Chwefror 2024, cynhaliwyd sgwrs wyneb yn wyneb gyntaf y Rhwydwaith Cenedlaethol yng Ngogledd a De Cymru.

Nod y sgwrs oedd:

- Cael y gwybodaeth ddiweddaraf am ganllawiau *Cwricwlwm i Gymru: ymlaen â'r daith* a gweld beth yw goblygiadau hyn ar gyfer eich ysgol neu leoliad;
- Cyfrannu at y sgwrs genedlaethol am Gynllunio'r Cwricwlwm a Chynnydd;
- Rhannu syniadau ynghylch y cyfleoedd a'r heriau yn y chwe maes dysgu a phrofiad, er mwyn helpu i lunio polisi ac arferion er budd pob dysgwr yng Nghymru; a
- rhwydweithio gyda chyd-ymarferwyr o bob rhan o Gymru, a chyfrannu at bolisi.

## Adborth cyffredinol:

- Mae cyfleoedd fel y sgyrsiau Rhwydwaith Cenedlaethol hyn yn cael eu gwerthfawrogi fel man diogel i drafod blaenoriaethau a dulliau cenedlaethol o gefnogi dysgwyr.
- Mae'r cydweithio â rhanddeiliaid a chlystyrau o ysgolion cynradd/uwchradd/arbennig yn gwella. Mae angen mwy o gydweithio wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo.
- Roedd ymarferwyr yn ei weld yn ddefnyddiol trafod dulliau o gynllunio'r cwricwlwm ac asesu ar draws ysgolion a lleoliadau. Mae datblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd yn parhau i fod yn flaenoriaeth i bob ysgol a lleoliad, lle byddai cefnogaeth a sicrwydd pellach yn cael ei groesawu.
- Trafododd llawer o ymarferwyr rôl cwricwlwm a asesu effeithiol wrth gefnogi egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru ar draws y continwwm 3-16 cyfan, gan gynnwys y cymorth pellach sydd ei angen i sicrhau defnydd effeithiol o fanylebau cymwysterau pan gânt eu cyhoeddi.
- Adnoddau: tra bod ymarferwyr ac arweinwyr ysgolion yn croesawu symleiddio'r trefniadau grant, roedd y cyfyngiadau cyffredinol ar gyllidebau ym mhob ysgol a lleoliad yn parhau i bryderu wrth gefnogi cwmpas mor eang o ddiwygiadau.

Gallwch weld canlyniadau'r ddau ddiwrnod yn y fideos isod:

Sgwrs wyneb yn wyneb Rhwydwaith Cenedlaethol De Cymru https://youtu.be/KrxY_wVFcG4

Sgwrs wyneb yn wyneb Rhwydwaith Cenedlaethol Gogledd Cymru

https://youtu.be/KunrXAlnx1I

# Camau nesaf ar gyfer Meysydd Dysgu a Phrofiad:

## Y Celfyddydau Mynegiannol

Clywsom:

- ei bod yn hanfodol sicrhau nad yw Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol yn cael ei "wthio o'r neilltu" yng nghyd-destun materion a blaenoriaethau eraill sy'n dod i'r amlwg. Er enghraifft, roedd rhai ymarferwyr yn teimlo bod ffocws cryf o hyd ar gefnogi llythrennedd a rhifedd ar draul y Celfyddydau Mynegiannol yn hytrach na gweld cyfleoedd i ddatblygu drwy'r Celfyddydau Mynegiannol.
- mae angen cryf i gefnogi athrawon drwy roi amser iddynt ddatblygu dealltwriaeth lawn o gynllunio ac addysgu – sy'n arbennig o berthnasol i'r Celfyddydau Mynegiannol, o gofio ei fod yn cwmpasu disgyblaethau penodol (e.e. Celf; Cerddoriaeth; Drama)

Byddwn yn:

- parhau i roi pwyslais gryf ar hyrwyddo'r maes Celfyddydau Mynegiannol a'i werth cynhenid o ran cefnogi dysgu ar draws y cwricwlwm – gan gynnwys drwy'r rhaglenni allweddol yr ydym yn eu cefnogi megis Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau (gyda Chyngor Celfyddydau Cymru) a'r Gwasanaeth Cerdd Cenedlaethol (CLILC).
- parhau i ddatblygu adnoddau i gefnogi ymarferwyr i addysgu'r maes Celfyddydau Mynegiannol a'i ddisgyblaethau cydrannol (e.e. gwefan adnoddau cerdd "Mewn Tiwn," a fydd ar gael drwy Hwb yn fuan)
- archwilio sut i gefnogi eglurder ynghylch cynnydd a'r disgyblaethau arbenigol yn y Celfyddydau Mynegiannol.

## Iechyd a Lles

Clywsom:

- fod amrywiaeth ar draws Cymru yn y dull o ymdrin â'r maes hwn. Fodd bynnag, roedd consensws bod Iechyd a Lles yn hollbwysig ar gyfer dysgu effeithiol a meithrin cydberthynasau.
- bod angen cymorth pellach ar ysgolion mewn perthynas â chynllunio'r cwricwlwm, asesu a chynnydd yn y Maes hwn.

Byddwn yn:

- parhau i gydweithio ag Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddatblygu Pecyn Cymorth Cwricwlwm Iechyd a Lles i gefnogi hyder ymarferwyr yn eu dealltwriaeth o'r maes ac wrth gynllunio eu cwricwlwm. Cyhoeddir drafft cyntaf y Pecyn Cymorth hwn ar ddiwedd tymor yr haf 2024 a bydd yn canolbwyntio ar Sylweddau a Dibyniaeth (yn benodol y thema fepio). Bydd y pynciau canlynol yn cael eu hychwanegu yn y dyfodol: Cwsg; Bwyd a Maeth a Rheoleiddio Emosiynol.
- Fel rhan o'r gwerthusiad ffurfiannol o weithredu'r cwricwlwm, bwriedir edrych yn fanwl ar Iechyd a Lles eleni. Bydd hyn yn cynnwys cyfweliadau manwl gydag ystod o ymarferwyr ac ysgolion i archwilio arferion effeithiol a lle mae angen cymorth pellach.

## Y Dyniaethau

Clywsom:

- fod angen Dysgu Proffesiynol pellach ar draws Maes y Dyniaethau. Mae'n hanfodol gwella'r rhwydweithio clwstwr i helpu gyda hyn a rhannu gwybodaeth ac arbenigedd.
- Mae diffyg hyder o ran deall cynnydd ac yn enwedig effaith cymwysterau wrth i'r cwricwlwm gael ei ddefnyddio yn ehangach..
- Mae cwestiynau'n parhau ynghylch sut i integreiddio astudiaethau busnes, dinasyddiaeth, astudiaethau cymdeithasol a gwleidyddiaeth (a drafodwyd yn flaenorol yn PSHE), yn enwedig mewn ysgolion cynradd ond heb fod yn gyfyngedig iddynt.

Byddwn yn:

- parhau i hyrwyddo lledaenu adnoddau a dysgu proffesiynol i gefnogi ymarferwyr i ddatblygu eu haddysgu yn y Dyniaethau a'i ddisgyblaethau cydrannol (e.e. llinellau amser rhyngweithiol i gefnogi addysgu hanes Cymru a chymunedau Du ac Ethnig Lleiafrifol).

## Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

Clywsom:

- er bod ymarferwyr yn gymharol hyderus o ran deall cynnydd dysgwyr, maent yn ymwybodol bod llawer o hyn trwy eu harsylwadau eu hunain, ac mae pryderon yn parhau o ddiwylliannau presennol ynghylch tystiolaeth i gefnogi barn broffesiynol.
- bod ysgolion cynradd yn ymgysylltu â'r cwricwlwm, gan gynnwys datblygu ieithoedd rhyngwladol mewn ffordd arloesol, ond mae yna amharodrwydd o hyd i wneud unrhyw newidiadau sylweddol yn yr ysgolion uwchradd hyd nes y ceir gwell dealltwriaeth o sut olwg fydd ar y cymwysterau.
- bod angen dysgu ac adnoddau mwy proffesiynol i gefnogi'r Gymraeg mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg ac ieithoedd rhyngwladol mewn ysgolion cynradd.

Byddwn yn:

- parhau i weithio gydag Adnodd i nodi a mynd i'r afael â bylchau mewn adnoddau ar gyfer addysgu'r Gymraeg ac ar gyfer pynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg.
- archwilio sut i gefnogi eglurder ynghylch cynnydd fel rhan o'r adolygiad o ganllawiau wedi'u diweddaru a deunyddiau ategol ychwanegol.
- archwilio sut y gallwn helpu i fagu hyder ymarferwyr i gynllunio a chyflwyno cwricwlwm ar gyfer y Gymraeg mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg ac ieithoedd rhyngwladol mewn ysgolion cynradd.

## Mathemateg a Rhifedd

Clywsom:

- bod yr hyfedreddau, lle cânt eu cymhwyso, yn cael effaith gadarnhaol ar addysgeg, ond gellid gwella'r wybodaeth am yr hyfedreddau a'u cymhwyso'n ehangach.
- Mae Mathemateg yn aml yn cael ei gynllunio a'i addysgu ar ei ben ei hun. Ond mae rhai ysgolion yn defnyddio system gyfeillio rhwng mathemateg a meysydd dysgu a phrofiad eraill.

- Mae ymarferwyr yn ei chael hi'n anodd deall y derminoleg ac yn ei chael hi'n anodd mynegi "pwrpas" rhywfaint o gynnwys mathemateg. Mae dealltwriaeth gysyniadol i rai nad ydynt yn arbenigwyr yn broblem.
- Gall newid dulliau o addysgu mathemateg rhwng cynradd ac uwchradd fod yn broblemus.
- Mae canfyddiad y gall fod yn anodd gwahaniaethu ar gyfer mathemateg. Y meddylfryd o hyd yw bod angen i athrawon wneud lle i gynnwys ar gyfer arholiadau.

Byddwn yn:

- Parhau i weithio tuag at wireddu'r camau gweithredu yng nghynllun mathemateg a rhifedd 2023 sef:
    - hyrwyddo pwysigrwydd a pherthnasedd sgiliau mathemateg a rhifedd.
    - cefnogi'r gwaith o ddatblygu meddylfryd a dull cadarnhaol o weithredu i hyrwyddo mathemateg a rhifedd mewn ysgolion, ac ar gyfer rhieni, gofalwyr a'r gymuned ehangach
    - datblygu cynnig dysgu proffesiynol cenedlaethol ar gyfer mathemateg a rhifedd sy'n cyd fynd â'r Cwricwlwm i Gymru ac wedi'i ategu gan yr Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol
    - Wrth wireddu'r Cwricwlwm i Gymru, cefnogi addysgwyr ledled Cymru i ddatblygu eu harferion, gwybodaeth a hyder fel bod modd iddynt annog ac arwain dysgwyr ar sut i gymhwyso eu sgiliau mathemategol a rhifyddol ar draws y cwricwlwm.

## Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Clywsom:

- fod ysgolion yn teimlo eu bod wedi'u llethu gan faint o gynnwys y mae angen iddynt ei gwmpasu ac nid oes ganddynt yr hyder i wybod ble y gellid lleihau cynnwys i gefnogi dealltwriaeth gysyniadol.
- y gall fod yn anodd cymryd cam yn ôl o'r dull hwn oherwydd faint o gynnwys a bennir yn y datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig i Wyddoniaeth a Thechnoleg.
- bod ysgolion yn gweithio gyda chyflogwyr STEM lleol i asesu eu cynigion ar gyfer y gwyddorau i sicrhau bod yr wybodaeth, y sgiliau a'r profiad a ddatblygir gan ddysgwyr yn berthnasol ac yn bwrpasol.

Byddwn yn:

- gweithio gyda thimau ar draws Llywodraeth Cymru i drafod sut y gall diwydiant gefnogi ymarferwyr, gan sicrhau bod y cymorth hwn yn cyd-fynd ag ethos y Cwricwlwm i Gymru ac yn ymarferol.

# I gymryd rhan yn ein sgyrsiau nesaf, cofrestrwch yma ar gyfer:

Sgwrs Rhwydwaith Cenedlaethol:  Pwrpas, Addysgeg a Chynnydd:

Y De: Dydd Iau 27 Mehefin 2024, Stadiwm Liberty, Abertawe

Gogledd Cymru: Dydd Mawrth 2 Gorffennaf 2024, Venue Cymru

a

Rhwydwaith Cenedlaethol Ymateb i Ddeallusrwydd Artiffisial mewn Addysg

Gogledd Cymru: Dydd Mawrth 2Gorffennaf 2024, Venue Cymru

Y De: Dydd Iau 11 Gorffennaf 2024, Gwesty Novotel, Caerdydd.